| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **09 CHWEFROR 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO - ADRODDIAD ADOLYGIAD O'I EFFEITHIOLRWYDD 2014/15** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **DIM** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys, yn 3.4.8.1.1 (ix) ofyniad 'i ddarparu adroddiad ar gyfer cyfarfod blynyddol y Cyngor ar ei weithgareddau am y flwyddyn'.

1.2 Yn Argraffiad 2013 o Ganllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu, manylir ar arfer dda o ran swyddogaethau craidd Pwyllgor Archwilio ac yn y canllawiau hynny, cyfeirir at fanteision cynnal hunanasesiad rheolaidd o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Awgryma'r canllawiau y dylid defnyddio hunanasesiad o'r fath i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglen waith y pwyllgor a chynlluniau hyfforddi ac, yn ogystal, fel sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor.

1.3 Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf felly, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnal Gweithdy Blynyddol sy'n cynnwys adolygiad o'i effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn gyfredol gyda golwg ar gynnwys y canlyniadau yn yr adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Mae'r Gweithdai hyn yn seiliedig ar ganllawiau ynghylch arferion gorau ac yn benodol, ar Restrau Gwirio CIPFA - Hunanasesu Arfer Dda a Gwerthuso Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio sydd wedi eu cynnwys yn Argraffiad 2013 o Ganllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu.

1.4 Cynhaliwyd yr adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio am 2014-13 ar 19 Ionawr 2015 yn Ystafell Bwyllgor 1 yn Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

Daeth 6 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio i'r gweithdy gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini, Arweinydd y Cyngor a'r Dirprwy Brif Weithredwr hefyd wedi cael gwahoddiad er mwyn codi proffil gwaith y Pwyllgor ond nid oedd yr un ohonynt yn gallu mynychu y tro hwn.

## 2. EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

2.1 <u>CIPFA – Hunanasesiad o Arfer Dda:</u> Mae canlyniadau'r hunanasesiad y Gweithdy o Arfer Dda'r Pwyllgor Archwilio wedi eu cynnwys yn Atodiad A y ffurflen ar ffurf Rhestr Wirio CIPFA – Hunanasesiad o Arfer Dda.

2.2 At ei gilydd, roedd hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio o'i berfformiad yn erbyn arfer dda yn gadarnhaol ac ystyriwyd mai dim ond 1 o'r 20 arfer dda oedd ddim yn cael eu cyflawni gan y Pwyllgor a bod modd gwella 4 arall o'r 20. Ystyriwyd bod y prif wendidau'n ymwneud â'r isod:-

- Pwrpas a Llywodraethiant y Pwyllgor Archwilio –

  At ei gilydd, daethpwyd i'r casgliad yn y Gweithdy fod y pwyllgor yn cwrdd â 3 allan o'r 6 gofyniad ac yn cwrdd yn rhannol â'r 6 arall.

  Cytunodd y gweithdy y bydd y gwaith diwygio a diweddaru y bwriedir ei wneud ar gylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys cofnodi pwrpas y Pwyllgor yn unol â Datganiad Sefyllfa CIPFA.

  Roedd yr Aelodau'n teimlo y byddai cyflwyno mwy o adroddiadau'n uniongyrchol i'r Cyngor yn fuddiol - efallai ar ffurf adroddiad Amlygu'n dwyn sylw ar faterion allweddol/risgiau a godwyd yn y Pwyllgor Archwilio fel a phan mae hynny'n briodol. Roedd yr Aelodau'n teimlo hefyd y dylid ystyried cyflwyno mwy o adroddiadau'n uniongyrchol i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â gweithgareddau'r Pwyllgor a phryderon o bwys.

  Roedd y gweithdy'n teimlo bod angen codi proffil y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor eisoes yn gwahodd yr Arweinydd a Chadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini i sesiynau hyfforddiant a gweithdai effeithiolrwydd. Teimlwyd y byddai mwy o adrodd uniongyrchol i'r Cyngor a'r Prif Weithredwr o gymorth i god proffil y Pwyllgor.

  Roedd y gweithdy o'r farn bod angen ystyried sut y gall y Pwyllgor ymgynghori'n fwy effeithiol gyda Phwyllgorau eraill (Sgriwtini, Safonau) a chyda'r Cyngor. Awgrymwyd y gallai rhannu blaenraglenni gwaith ac argymell eitemau ar y cyd i sylw Pwyllgorau gynorthwyo yn hyn o beth.

  Daeth y gweithdy i'r casgliad nad oes ar hyn o bryd unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer dal y Pwyllgor yn atebol am ei berfformiad ac i ddarparu sicrwydd ei fod yn gweithredu'n foddhaol. Dyma pam mewn gwirionedd yr oedd y broses hunanasesu mor bwysig. Ym marn y gweithdy, roedd rôl i SAC yn hyn o beth a dylid gofyn iddynt ddarparu atborth ar ei berfformiad i'r Pwyllgor yn rheolaidd. Awgrymwyd hefyd y dylid gofyn i eraill fynychu'r Pwyllgor yn rheolaidd: Aelod Portffolio, Dirprwy Brif Weithredwr, Swyddog A151. Gellid gofyn yn ffurfiol hefyd i'r Prif Weithgor Archwilio am eu barn ynghylch perfformiad y Pwyllgor.

- Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio

  Cytunodd y Gweithdy y dylid, wrth ddiwygio'r Cylch Gorchwyl, fynd drwy bob un o'r penawdau ynddo a nodi sut y bydd y Pwyllgor yn cydymffurfio â nhw a'r sicrwydd a fydd ar gael i'r Pwyllgor ddibynnu arno. Byddai hyn yn darparu fframwaith sicrwydd ar gyfer y Pwyllgor.

  Ym marn y gweithdy, dylai'r bwriad i ddiwygio a diweddaru cylch gorchwyl y Pwyllgor gynnwys yn benodol adolygiad o ran sicrhau gwerth am arian a'r gwerth gorau yn y Cyngor.

  Roedd y gweithdy o'r farn hefyd y dylid cryfhau'r cylch gorchwyl o ran darparu sicrwydd dros y fframwaith sicrwydd yn ei chyfanrwydd.

  Roedd y gweithdy'n teimlo nad oedd modd, yn yr amser a oedd ar gael mewn pwyllgorau, i sicrhau ei fod yn diwallu'r cyfan o'i swyddogaethau fel y cânt eu nodi yn y cylch gorchwyl yn arbennig felly ei swyddogaethau craidd. Mae'r Cadeirydd wrthi'n adolygu calendr gwaith y Pwyllgor ac ychwanegu at nifer y cyfarfodydd a gynhelir. Gofynnodd yr Aelodau am i unrhyw raglenni ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol ganolbwyntio ar bryderon penodol y Pwyllgor fel y gellir sicrhau digon o amser i'w trafod. Bu'r Gweithdy hefyd yn ystyried defnyddio grwpiau gwaith a sesiynau cyn-briffio i ddarparu manylion ychwanegol at y materion allweddol a'r pryderon.

- Aelodaeth a Chefnogaeth

Roedd yr Aelodau'n cydnabod nad oedd unrhyw asesiad ffurfiol yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd ar gyfer Aelodau fel a nodwyd yng Nghanllawiau 2013 CIPFA wedi cael ei gynnal hyd yma. Cynhelir asesiad o'r fath yn ystod 2015 er mwyn nodi unrhyw fylchau ac anghenion hyfforddi.

2.3 Asesu Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio: - Nid oedd gan y gweithdy ddigon o amser i ystyried yn llawn a thrafod y rhestr wirio ar gyfer Asesu Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio. Roedd y rhestr wirio wedi cael ei chylchredeg eisoes gyda rhaglen y gweithdy i holl Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r sawl a wahoddwyd i'r gweithdy.

2.4 Roedd y Rheolwr Archwilio wedi cwblhau copi o'r rhestr wirio er mwyn nodi'r meysydd hynny lle yr oedd gan y Pwyllgor, yn ei farn ef, gryfderau a gwendidau a'r meysydd hynny y gellid eu gwella. Mae'r rhestr wirio a gwblhawyd gan y Rheolwyr Archwilio ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

2.5 Yn asesiad y Rheolwr Archwilio o effeithiolrwydd y Pwyllgor, nodwyd y meysydd canlynol y gall y Pwyllgor ystyried eu gwella yn 2015-16:

- Cefnogi Trefniadau ar gyfer Rheoli Risg
  Er bod y Pwyllgor Archwilio wedi cefnogi sefydlu fframwaith Rheoli Risg cadarn sydd wedi ymwreiddio'n llawn yn yr awdurdod, nid yw'r gefnogaeth hon wedi bod yn effeithiol eto o ran sicrhau'r canlyniadau a ddeisyfir.

- Digonolrwydd y Fframwaith Sicrwydd
  Rhaid i'r Pwyllgor barhau i gefnogi datblygiad y gwaith papur ar gyfer ei fframwaith sicrwydd. Mae'r Gweithdy wedi gofyn i fframwaith sicrwydd gael ei ddatblygu ar gyfer cwrdd â'i ymrwymiadau dan Gylch Gorchwyl diwygiedig.

- Cefnogi Trefniadau Gwerth am Arian
  Fel y nodwyd uchod yn yr adroddiad hwn, nid yw adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau Cyngor ar gyfer sicrhau Gwerth am Arian a gwerth gorau wedi eu cynnwys ar hyn o bryd yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor. Bydd Archwilio Mewnol yn cynnwys adolygiad o drefniadau GAA yn y gwasanaethau yn gynnar yn 2015/16 ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar ei ganfyddiadau. Gallai'r canlyniadau fod yn sylfaen i waith gweithgor o'r Pwyllgor ac arno'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol.

- Helpu'r awdurdod i weithredu trefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â risgiau o ran twyll a llygredd
  Nodwyd fel maes ar gyfer ei ddatblygu ymhellach yn 2015-16, drefniadau'r Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â thwyll. Mae penodi'r Swyddog Gwrth-Dwyll a chynnal asesiad o'r risg o dwyll a chamgymeriad yng ngweithgareddau'r Cyngor yn gamau cadarnhau ar gyfer gwella trefniadau yn y maes hwn.

- Hyrwyddo Trefniadau Adrodd Effeithiol a Chyhoeddus i Gydranddeiliaid y Cyngor
  Nid oes gan y Pwyllgor rôl ar hyn o bryd mewn perthynas â hyrwyddo trefniadau adrodd effeithiol a chyhoeddus i gydranddeiliaid y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys adolygu a yw penderfyniad a wnaed gan sefydliadau partner yn parhau i fod yn dryloyw ac yn hwylus i'r cyhoedd ac annog gwell tryloywder.

## 3. CYNLLUN GWEITHREDU EFFEITHIOLRWYDD

3.1 Mae’r gwaith a wnaed yn y gweithdy ac mewn perthynas â’r gweithdy wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella o ran cwrdd ag arferion gorau ac er mwyn sicrhau fod y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu o ran ei effeithiolrwydd.

3.2 Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y gwendidau a nodwyd a chymeradwyo datblygu Cynllun Gweithredu’n nodi’r modd y bwriedir rhoi sylw i’r gwendidau yn 2015/16, pwy fydd yn gwneud hynny ac erbyn pryd. Yna, adroddir yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu i’r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfodydd.

**RHEOLWR ARCHWILIO**
**09 Chwefror 2015**

## Atodiad A

**CIPFA – Pwyllgorau Archwilio / Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol 2013**
**Hunanasesiad o Arferion Da**

| | Cwestiynau Arferion Da | Oes/ Ydi | Yn Rhannol | Na | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwrpas a Llywodraethiant y Pwyllgor Archwilio | | | | | |
| 1 | Oes gan yr awdurdod bwyllgor archwilio pwrpasol? | OES | | | Gweler y cyfansoddiad – Cylch Gorchwyl yn 3.4.8.<br><br>Mae'r Pwyllgor Archwilio wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru a diwygio ei Gylch Gorchwyl. |
| 2 | Ydi'r pwyllgor archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor llawn? (yn berthnasol i lywodraeth leol yn unig) | YDI | | | Mae rhywfaint o adrodd/argymell yn uniongyrchol i'r Cyngor, megis y Strategaeth Rheoli Trysorlys, Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ac ati.<br>Mae 3.4.8.1.8 yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor yn caniatáu i archwilwyr ddod â materion gerbron y PA os ydynt o'r farn y dylai'r Cyngor gael gwybod amdanynt.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Roedd yr Aelodau'n teimlo y byddai cyflwyno mwy o adroddiadau'n uniongyrchol i'r Cyngor yn fuddiol - efallai ar ffurf adroddiad Amlygu'n dwyn sylw ar faterion allweddol/risgiau a godwyd yn y Pwyllgor Archwilio fel a phan mae hynny'n briodol.<br>Trafododd yr Aelodau bosibilrwydd adolygu a chytuno ar feysydd risg allweddol ar ddechrau'r flwyddyn ac edrych ar bob un ohonynt yn fanylach yn ystod y flwyddyn.<br>Ystyriwyd hefyd y mater o gyflwyno mwy o adroddiadau'n uniongyrchol i'r Prif Weithredwr ynghylch gweithgareddau a phryderon y Pwyllgor. |
| 3 | Ydi'r cylch gorchwyl yn nodi pwrpas y pwyllgor yn glir yn unol â Datganiad Sefyllfa CIPFA? | | RHANNOL | | Nid yw'r CH cyfredol yn sôn yn benodol am bwrpas – mae'r Pwyllgor Archwilio wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru ac adolygu ei CG a bydd y newidiadau'n cynnwys pwrpas y Pwyllgor yn unol â Chanllawiau CIPFA. |
| 4 | Ydi rôl a phwrpas y pwyllgor archwilio yn cael eu derbyn a'u deall ar draws yr awdurdod? | | RHANNOL | | CG wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad – presenoldeb y PW, DBW, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro'n adlewyrchu dealltwriaeth.<br><br>Fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn bod angen codi proffil y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor eisoes yn gwahodd yr Arweinydd a'r Cadeirydd Sgriwtini i sesiynau hyfforddiant a gweithdai effeithiolrwydd.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Angen ystyried sut y gall y Pwyllgor ymgynghori mwy gyda Phwyllgorau eraill (Sgriwtini, Safonau) a chyda'r Cyngor. Awgrymwyd y dylid rhannu blaenraglenni gwaith a chyd-argymell eitemau i sylw Pwyllgorau er mwyn cynorthwyo gyda'r broses hon. Byddai o gymorth hefyd cysylltu gyda Phwyllgorau Archwilio awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a gofyn sut y maent hwy'n cyflawni hyn. |
| 5 | Ydi'r pwyllgor archwilio yn rhoi cymorth i'r awdurdod i gwrdd â gofynion llywodraethiant da? | | | | Ym marn yr aelodau, roedd yn anodd mesur cefnogaeth o'r fath. Anodd mesur ond roedd y Pwyllgor wedi rhoi lefel dda o gefnogaeth yn y gorffennol fel y gwelwyd o'r gwaith a wnaed ganddo ac sydd wedi ei gofnodi ar log materion y Pwyllgor.<br><br>Roedd log o'r materion a godwyd wedi cael ei sefydlu gan y Pwyllgor a oedd yn cynnwys y materion a godwyd, pryd yr oedd angen gweithredu a chan bwy. Fodd bynnag, mae hwn bellach yn hen a gofynnodd yr Aelodau i'r log gael ei ddiweddaru ac am barhau gyda'r gwaith.<br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Enghreiffitiau o gefnogaeth o ran llywodraethiant yn cynnwys derbyn adroddiadau archwilio mewnol ac allanol; adolygu'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol; derbyn adroddiadau rheoli risg a'r gwaith parhaus o adolygu'r fframwaith rheoli mewnol ac ati. |
| 6 | Ydi'r trefniadau i ddal y pwyllgor i gyfrif am ei berfformiad yn gweithredu'n foddhaol? | | RHAN NOL | | Nid oes unrhyw drefniadau penodol ar gyfer hyn i'r Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, yn dilyn yr adolygiad diwethaf o effeithiolrwydd , gofynnwyd am farn SAC (a gynrychiolir ym mhob cyfarfod) ar berfformiad y Pwyllgor.<br><br>Mae'r Aelodau'n mynychu gweithdy blynyddol i adolygu ei effeithiolrwydd a'i berfformiad ac, yn ogystal, cyflwynir adroddiad i'r Cyngor ar ei waith yn ystod y flwyddyn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Sylwadau'r Gweithdy:** Roedd yr Aelodau'n credu y gellid gofyn hefyd am farn y rheiny sy'n dod i'r Pwyllgor yn rheolaidd am sut mae'n perfformio; sef yr Aelod Portffolio, y Dirprwy Brif Weithredwr, y Swyddog Adran 151, y Prif Archwiliwr. |
| Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio | | | | | |
| 7 | Ydi cylch gorchwyl y pwyllgor yn rhoi sylw penodol i'r holl feysydd craidd a nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA? | | | | **Sylwadau'r Gweithdy**: Pan fo Cylch Gorchwyl diwygiedig yn cael ei gyhoeddi, cytunodd yr Aelodau y dylid cynnal ymarfer i fynd trwy bob un o'r telerau gan nodi sut y bydd y Pwyllgor yn cydymffurfio gyda phob un a pha sicrwydd sydd ar gael y gall y Pwyllgor ddibynnu arno. Byddai hynny'n cynhyrchu fframwaith sicrwydd ar gyfer y Pwyllgor. |
| a | •Llywodraethiant da | **YDI** | | | PA – CG – 3.4.8.1.9 ac yn gyffredinol |
| b | •Fframwaith sicrwydd | | RHAN NOL | | Nid yw'r Fframwaith sicrwydd wedi ei gynnwys yn benodol yn CG y PA –mae'r DLlB wedi ei gynnwys ac, yn gyffredinol, mae'r PA wedi bod yn sylw i feysydd y fframwaith.<br><br>Caiff ei gynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig o'r CG. |
| c | •Archwilio mewnol | **YDI** | | | CG PA – 3.4.8.1.1 |
| d | •Archwilio allanol | **YDI** | | | CG PA – 3.4.8.1.1 |
| e | •Adrodd ariannol | **YDI** | | | CG PA – 3.4.8.1.2 |
| f | •Rheoli risg | **YDI** | | | CG PA – 3.4.8.1.9 |
| g | •Gwerth am arian neu werth gorau | | | **NA** | Dim yn benodol yn CG y PA ond bydd wedi ei gynnwys yn yr adolygiad arfaethedig a'r diweddariad.<br><br>Bydd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o drefniadau gwerth am arian o fewn y gwasanaethau ac yn ei gyflwyno i'r PA yn gynnar yn 2015/16.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:** Dylai adroddiadau gynnwys cyfeiriad at y ffaith fod GAA wedi ei gymryd i ystyriaeth a sut y gwnaed hynny.<br><br>Rhoddir sylw i faterion caffael a rheoli contractau. |
| h | •Atal twyll a llygredd | **YDI** | | | CG PA – 3.4.8.1.3 |
| 8 | A oes gwerthusiad blynyddol yn cael ei wneud i asesu a yw'r pwyllgor yn cwrdd â'i gylch gorchwyl a bod sylw digonol yn cael ei | YDI | | | Mae'r hunanasesiad blynyddol yn cynnwys y meysydd craidd yng ngwaith y Pwyllgor. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | roi i'r meysydd craidd? | | | | Bydd y CG diwygiedig yn cynnwys yr holl feysydd a benodir yn feysydd craidd yng nghanllawiau 2013 CIPFA.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Soniodd yr Aelodau nad oedd digon o amser yn y Pwyllgor i ddelio'n llawn gyda'r holl faterion yn y CG. Mae'r Cadeirydd wrthi'n adolygu'r calendr ar gyfer y Pwyllgor a chynyddu nifer y cyfarfodydd a gynhelir. Gofynnodd yr Aelodau am i raglenni unrhyw gyfarfodydd ychwanegol ganolbwyntio ar bryderon allweddol y Pwyllgor er mwyn caniatáu digon o amser i drafod y materion dan sylw. |
| 9 | Ydi'r pwyllgor archwilio wedi ystyried y materion ehangach a nodwyd yn Natganiad Sefyllfa CIPFA ac a fyddai'n briodol i'r pwyllgor eu cyflawni? | YDI | | | Ar hyn o bryd, mae'r pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau ar drefniadau RhT; trosolwg o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac adroddiadau cyhoeddus eraill; ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Ystyriodd yr Aelodau a ddylai meysydd ehangach o'r fath gynnwys gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau o ran moeseg ond nid oedd yn credu bod angen gwneud hynny. |
| 10 | Os gwelwyd mai sylw cyfyngedig sy'n cael ei roi i feysydd craidd, a oes cynlluniau wedi eu sefydlu i fynd i'r afael â hynny? | YDI | | | Llunir Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar weithdy blynyddol y Pwyllgor a byddai'n cynnwys unrhyw feysydd craidd yr ystyrir nad ydynt wedi cael sylw digonol yn y cyfnod perthnasol. |
| 11 | Ydi'r pwyllgor wedi cynnal ei swyddogaeth anymgynghorol trwy beidio â chymryd unrhyw bwerau gwneud penderfyniad nad ydynt yn gyson a'i bwrpas craidd? | **YDI** | | | Gwneir penderfyniadau yn unol â'r CG. |
| Aelodaeth a chefnogaeth | | | | | |
| 12 | A ddewiswyd strwythur a chyfansoddiad effeithiol ar gyfer y pwyllgor archwilio?<br>Dylai hyn gynnwys: | | | | |
| a | • Gwahaniad oddi wrth y pwyllgor gwaith | **YDI** | | | CG y PA 3.4.8.3.2 – Nid yw Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gymwys i wasanaethu ar y PA.<br>3.4.8.3.5 – Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp sydd ar y Pwyllgor Gwaith. |
| b | • Cymysgedd priodol o wybodaeth a sgiliau ymysg yr aelodau | YDI | | | Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau o lawer o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys dau aelod lleyg sy'n darparu mewnbwn o'r tu allan i'r awdurdod lleol i waith y Pwyllgor.<br><br>Rhoddir sesiynau cynefino i |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | aelodau'r pwyllgor ynghyd â hyfforddiant penodol ar feysydd sy'n ymwneud â'u gwaith fel y Datganiad Cyfrifon, Rheoli'r Trysorlys, rheoli risg ac ati ynghyd â diweddaru ac adolygu rôl y Pwyllgor a'r canllawiau a'r rheoliadau diweddaraf yn ei weithdai blynyddol.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Roedd yr aelodau'n cefnogi'r trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael am sgiliau'r aelodau fel bod modd penderfynu ar y gymysgedd briodol o sgiliau. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd.<br><br>**(Gweler 15 os gwelwch yn dda ynghylch asesu'r sgiliau craidd yn erbyn y rheiny a nodir yng nghanllawiau CIPFA ar gyfer 2013).** |
| c | •Pwyllgor o faint hwylus | **YDI** | | | CG y PA – 3.4.8.3 Aelodaeth wyth aelod o'r Cyngor a dau aelod cyfetholedig.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Ystyriwyd bod maint y Pwyllgor yn briodol.<br><br>Roedd yr Aelodau yn cefnogi bwriad y Cadeirydd i adolygu nifer y cyfarfodydd a gynhelir yn 2015/16 a'r calendr o waith a fabwysiedir am y flwyddyn i ddod. |
| d | •Os defnyddir aelodau annibynnol, eu bod wedi eu penodi trwy ddefnyddio'r broses briodol | **YDI** | | | Cael eu dewis yn wreiddiol gan Is-bwyllgor o'r PA – wedi ei ymestyn trwy bleidlais yn y PA yn Rhagfyr 2013.<br><br>Yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio yn 2015, cyflwynir opsiynau ar gyfer y broses a fabwysiedir i ddewis aelodau cyfetholedig ar gyfer 2015/16 ymlaen. |
| 13 | Oes gan gadeirydd y pwyllgor wybodaeth a sgiliau priodol? | **YDI** | | | Nid yw gwybodaeth a sgiliau'r Cadeirydd wedi eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y wybodaeth graidd a'r sgiliau a amlinellir yng nghanllawiau CIPFA.<br><br>Mae'r Cadeirydd cyfredol yn gadeirydd profiadol ar gyfer y PA ac wedi mynychu nifer o sesiynau hyfforddi ar feysydd allweddol yng ngwaith y Pwyllgor.<br><br>Roedd yr Aelodau'n cytuno fod y Cadeirydd cyfredol yn cwrdd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | â'r maen prawf hwn.<br><br>**(Gweler 15 os gwelwch yn dda ynghylch asesu'r sgiliau craidd yn erbyn y rheiny a nodir yng nghanllawiau CIPFA ar gyfer 2013).** |
| 14 | Oes trefniadau i gefnogi'r pwyllgor gyda sesiynau briffio a hyfforddiant? | **YDI** | | | Mae'r Pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant cynefino a hyfforddiant penodol ar Reoli'r Trysorlys ac mae RM ar Raglen Hyfforddiant yr Aelodau a weinyddir gan AD. Cynhelir hunanasesiad blynyddol hefyd o effeithiolrwydd y Pwyllgor sy'n cynnwys diweddariad ar rôl y Pwyllgor a'r rheoliadau a'r canllawiau diweddaraf ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Roedd yr Aelodau yn ystyried bod y trefniadau hyfforddi yn ddigonol.<br><br>Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n credu y byddai mwy o sesiynau briffio ar bryderon a materion penodol o fantais yn hytrach na bod y wybodaeth yn cael ei darparu fel rhan o'r cyfarfodydd arferol. |
| 15 | A ydi aelodaeth y pwyllgor wedi ei asesu fel aelodaeth foddhaol yn seiliedig ar y fframwaith sgiliau a gwybodaeth greiddiol? | | | **NA** | NI chynaliwyd asesiad ffurfiol hyd yma o'r fframwaith sgiliau a gwybodaeth graidd a nodir yng Nghanllawiau CIPFA ar gyfer 2013.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Cynhelir hunanasesiad ffurfiol gan aelodau yn 2015 o'r wybodaeth graidd a'r sgiliau er mwyn nodi unrhyw fylchau o ran sgiliau ac anghenion hyfforddi. |
| 16 | Oes gan y pwyllgor berthynas weithio dda gyda sefydliadau a phobl allweddol, gan gynnwys archwilwyr mewnol, archwilwyr allanol a'r prif swyddog cyllid? | **YDI** | | | Mae'r cyfan yn dod i bob Pwyllgor Archwilio ac mae'r Aelod Portffolio a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn mynychu'n rheolaidd –<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Roedd yr Aelodau'n credu bod y berthynas gyda'r swyddogion cymorth yn foddhaol. |
| 17 | Ydi'r ysgrifenyddiaeth a'r gefnogaeth weinyddol ar gyfer y pwyllgor yn ddigonol? | **YDI** | | | Mae'r clarcod pwyllgor yn anfon rhaglenni ac yn cymryd cofnodion. Mae'r Uned Gyfieithu yn dod i bob cyfarfod. Anfonir rhaglenni ymlaen llaw.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Roedd yr Aelodau'n credu bod y cymorth yn foddhaol. |
| Effeithiolrwydd y Pwyllgor | | | | | |
| 18 | Ydi'r pwyllgor wedi cael sylwadau am ei berfformiad gan y rheini sy'n ymwneud a'r pwyllgor neu sy'n dibynnu ar ei waith? | | | **NA** | Cafodd y Pwyllgor rai sylwadau gan SAC yn dilyn y Gweithdy blaenorol.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes proses ffurfiol ar gyfer adolygu a darparu atborth gan bobl eraill sy'n mynychu'r Pwyllgor Archwilio'n rheolaidd na chan y rheiny sy'n dibynnu ar ei waith.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:** Gofynnodd yr aelodau am gael sefydlu proses ar gyfer cael atborth bob blwyddyn gan y rheiny sy'n dod i'r pwyllgor yn rheolaidd a'r rheiny sy'n dibynnu ar ei waith. |
| 19 | Ydi'r pwyllgor wedi asesu a yw'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad a sut mae'n gwneud hynny? | YDI | | | Cynhelir gwerthusiad o'r fath fel rhan o'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried sut y mae'r Pwyllgor yn ychwanegu gwerth fel rhan o'i adroddiad blynyddol i'r Cyngor.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:** Roedd yr Aelodau o'r farn mai un ffordd i benderfynu a oedd y Pwyllgor yn ychwanegu gwerth fyddai iddo adolygu ei log o faterion a godwyd a gwerthuso canlyniad pob un yn dilyn mewnbwn y Pwyllgor. |
| 20 | Oes gan y pwyllgor unrhyw gynllun gweithredu i wella unrhyw wendidau? | **OES** | | | Caiff cynllun gweithredu ei gynhyrchu ar ôl pob Gweithdy a'i gynnwys mewn adroddiad ar y gweithdy a'r canlyniadau ar gyfer y Pwyllgor Archwilio llawn nesaf.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:** Cynllun Gweithredu i'w gynhyrchu yn dilyn canlyniadau'r Gweithdy. |

**Summary of Results by Area**

| Maes a Ystyriwyd | Do | Rhannol | Na | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwrpas a llywodraethiant y Pwyllgor Archwilio | 3 | 3 | 0 | 6 |
| Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio | 5 | 0 | 0 | 5 |
| Aelodaeth a chefnogaeth | 5 | 0 | 1 | 6 |
| Effeithiolrwydd y Pwyllgor | 2 | 1 | 1 | 3 |
| | **15** | **4** | **1** | **20** |


Effectiveness of the Committee
Membership and support
Functions of the Audit Committee
Audit Committee purpose and governance
2
1
0
5
1
5
0
3
3
0
0%
20%
40%
60%
80%
100%
Yes
Partly
No

**ATODIAD B**

## CIPFA – Pwyllgorau Archwilio / Cyfarwyddyd Ymarferol i Awdurdodau Lleol 2013

## Gwerthuso Effeithlonrwydd y Pwyllgor Archwilio

| | Meysydd lle gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth drwy gefnogi gwelliant | Esiamplau o sut y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a darparu tystiolaeth o effeithlonrwydd | Hunanarfarnu, esiamplau, meysydd o gryfder a gwendidau | Asesiad cyffredinol: 5-1 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Hyrwyddo egwyddorion llywodraethu da a'u cymhwyso i wneud penderfyniad. | Darparu adolygiad cadarn o'r DLlB a'r sicrwydd sy'n ei sylfaenu.<br>Gweithio gydag aelodau allweddol/llywodraethwyr i wella eu dealltwriaeth o'r DLlB a'u cyfraniad iddo.<br>Cefnogi adolygiadau/archwiliadau o drefniadau llywodraethu.<br>Cyfranogi mewn hunanasesiadau o drefniadau llywodraethu.<br>Gweithio gyda phwyllgorau oedolion partner i adolygu trefniadau llywodraethu mewn partneriaethau. | •Adolygiad o'r DLlB;<br>•Cefnogaeth ar gyfer adolygiadau llywodraethu drwy'r flwyddyn gan AM a SAC ac ati.<br>•Yn ymwneud â'r adolygiad o DLlB - dod yn rhan o'r broses o gefnogi'r fframwaith sicrwydd llywodraethu;<br>•Gweithdai hunanasesiad gan gynnwys llywodraethu.<br>**<u>Meysydd yr awgrymir y dylid eu gwella:</u>**<br>•Yn dilyn adolygu a diweddaru CG y Pwyllgor, awgrymodd yr Aelodau y dylid cael eglurhad ynghylch sut y gall y Pwyllgor gwrdd â gofynion pob un o'r telerau yn y CG a'r sicrwydd sydd ar gael iddynt. Bydd hyn o gymorth i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd ar gyfer y Pwyllgor a'i helpu i ddatblygu ei galendr gwaith.<br>•Gofynnodd yr Aelodau am i log o'r materion a godwyd ac a drafodwyd yn y Pwyllgor gael ei gynnal i gefnogi ei rôl o ran hyrwyddo llywodraethiant da. | 4 |
| 2 | Cyfrannu tuag at ddatblygu amgylchedd rheoli effeithiol. | Monitro gweithrediad argymhellion gan archwilwyr.<br>Annog perchnogaeth o'r fframwaith rheoli mewnol gan reolwyr priodol.<br>Codi pryderon ynghylch reoliadau gydag uwch reolwyr priodol. | •Monitro cyfradd gweithredu adolygiadau AM yn adroddiad cynnydd y Rheolydd Archwilio;<br>•Galw rheolwyr i mewn i egluro gwendidau rheoli mewn adroddiadau Coch;<br>**<u>Meysydd yr awgrymir y dylid eu gwella:</u>**<br>•Ymestyn tracio argymhellion i'r holl adroddiadau - angen cefnogi cofrestr | 4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ganolog ac argymhellion, camau a gweithrediad.<br>•Mae'r Aelodau wedi awgrymu y dylid cynnal gweithgorau a fyddai'n cyfarfod yn y cyfamser rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Archwilio ac a fyddai'n canolbwyntio ar feysydd penodol yn fanylach ac yn ddyfnach na'r pwyllgor. Dylai grwpiau o'r fath gynnwys uwch swyddogion perthnasol ac aelodau perthnasol nad ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio. | |
| 3 | Cefnogi'r broses o sefydlu trefniadau ar gyfer llywodraethu risg a chael trefniadau effeithiol i reoli risg. | Adolygu trefniadau rheoli risg a'u heffeithlonrwydd, e.e. meincnodi rheoli risg.<br>Monitro gwelliannau.<br>Dal perchnogion risg i gyfrif am y risgiau mwyaf/strategol. | •Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i herio'r amser a gymer i weithredu'n llawn ar drefniadau rheoli risg yn y Cyngor.<br>•Mae'r Pwyllgor wedi cefnogi'r sefydliad – ond nid yw'r gefnogaeth honno wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau'r canlyniadau a ddeisyfir.<br>**<u>Meysydd yr awgrymir y dylid eu gwella:</u>**<br>•Dylai'r Pwyllgor barhau i herio swyddogion ynghylch methiant i sefydlu'r broses yn gadarn.<br>•Bwriedir cyflwyno adroddiad cynnydd i gyfarfod mis Ebrill o'r Pwyllgor Archwilio. | 2 |
| 4 | Rhoi cyngor ar ba mor ddigonol yw'r fframwaith sicrwydd ac ystyried a yw sicrwydd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. | Nodi anghenion sicrwydd, nodi bylchau neu orgyffwrdd mewn sicrwydd.<br>Edrych i lyfnhau'r broses o gasglu sicrwydd ac adrodd yn ôl.<br>Adolygu effeithlonrwydd darparwyr sicrwydd, e.e. archwilio mewnol, rheoli risg, archwilio allanol. | •Roedd y Pwyllgor wedi dechrau cynnwys adolygiad o'r fframwaith rheoli sicrwydd yn ei galendr ar gyfer 2014 ond nid yw hyn wedi digwydd ers peth amser. Ymddengys bod y gwaith o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd ar bapur wedi stopio.<br>•Mae Aelodau wedi gofyn i Fframwaith Sicrwydd gael ei ddarparu ar gyfer CG diwygiedig y Pwyllgor a byddir yn croesawu hynny fel rhywbeth a fyddai'n ailgychwyn y gwaith o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd corfforaethol. | 3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **<u>Meysydd yr awgrymir y dylid eu gwella</u>**<br>•Awgrymu bod uwch reolwyr yn ailgychwyn datblygu'r Fframwaith sicrwydd corfforaethol sy'n gysylltiedig â'r gwaith a wnaed i gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.<br>•Aelodau o'r farn bod angen i'r Pwyllgor Archwilio fod yn fwy rhagweithiol o ran rhoi gwyod i'r Cyngor a'r UDA a'r PG am feysydd sy'n peri pryder. | |
| 5 | Cefnogi ansawdd y gweithgaredd archwilio mewnol, yn arbennig drwy sicrhau ei annibyniaeth sefydliadol. | Adolygu'r siarter archwilio a'r trefniadau adrodd yn ôl gweithredol. Asesu effeithlonrwydd y trefniadau archwilio mewnol a chefnogi gwelliannau. | •Bod y Pwyllgor yn adolygu'r Siarter a'r Protocol Archwilio Mewnol sy'n cynnwys ei annibyniaeth;<br>•Derbyn adroddiadau cynnydd gan AM yn rheolaidd;<br>•Cymeradwyo'r Cynllun AM bob blwyddyn gan gynnwys adolygiad o'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r Cynllun Archwilio Mewnol Gweithredol.<br>**<u>Meysydd yr awgrymir y dylid eu gwella</u>**<br>•Fel uchod - gellid ystyried ffyrdd o adolygu a mesur archwilio mewnol a risg. Angen i AM wneud hynny bob pum mlynedd yn PSIAS. | 4 |
| 6 | Cynorthwyo i gyflawni targedau ac amcanion yr awdurdod drwy roi cymorth gogyfer sicrhau llywodraethu priodol, rheoli risg, a threfniadau sicrwydd. | Adolygu prosiectau a rhaglenni mawr gogyfer sicrhau bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn eu lle.<br>Adolygu effeithlonrwydd trefniadau rheoli perfformiad. | •Mae'r Pwyllgor yn cynorthwyo yn hyn o beth drwy ei waith a'i gefnogaeth yn ystod y flwyddyn.<br>•Mae Log y Pwyllgor Archwilio o faterion a godwyd yn cefnogi'r Pwyllgorau sy'n gyfrifol am y materion hynny.<br>**<u>Meysydd yr awgrymir y dylid eu gwella:</u>**<br>•Nid yw'r Pwyllgor yn adolygu prosiectau a rhaglenni mawr;<br>•Nid yw'r Pwyllgor yn adolygu trefniadau perfformiad. | 3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Cefnogi datblygiad trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau gwerth am arian. | Sicrhau bod sicrwydd ar y trefniadau gwerth am arian yn cael ei gynnwys yn y sicrwydd a dderbynnir gan y pwyllgor archwilio.<br>Ystyried sut y mae perfformiad o ran gwerth am arian yn cael ei werthuso fel rhan o'r DLlB. | **<u>Meysydd yr awgrymir y dylid eu gwella:</u>**<br>•Mae'r casgliad GAA yn cynnwys nifer o elfennau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi ac mae'n fwy pellgyrhaeddol o lawer na materion GAA yn unig;<br>•GAA i gael ei gynnwys yn CG diwygiedig y Pwyllgor;<br>•Y meini prawf penodol ar gyfer y casgliad ynghylch GAA yw:<br>•Sicrhau cadernid ariannol (adolygiad PA o'r CATC);<br>•Herio'r modd y mae'n sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;<br>•Bydd Archwilio Mewnol yn cynnwys adolygiad o drefniadau GAA yn y Gwasanaethau yn fuan yn 2015/16 ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar y casgliadau. Gallai'r canlyniadau fod yn sylfaen i waith grŵp cychwynnol ar gyfer y Pwyllgor yn cynnwys y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. (Gweler os gwelwch yn dda y gwelliannau a awgrymir yn 2 uchod). | 1 |
| 8 | Cynorthwyo'r Awdurdod i weithredu gwerthoedd llywodraethu da, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer atal twyll a risgiau o lygredd. | Adolygu trefniadau yn erbyn y safon a osodir yn llyfryn CIPFA *Rheoli'r Risg o Dwyll* (Llyfr Coch 2).<br>Adolygu risgiau twyll ac effeithlonrwydd strategaeth y sefydliad er mwyn rhoi sylw i'r risgiau hynny.<br>Asesu effeithlonrwydd y trefniadau llywodraethu moesegol ar gyfer staff a llywodraethwyr. | •Mae'r Pwyllgor yn derbyn Adroddiad Twyll Blynyddol sy'n manylu ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.<br>•Mae'r Swyddog Atal Twyll sydd newydd ei benodi yn cynnal asesiad risg cyntaf y Cyngor ynghylch twyll a chamgymeriadau a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn fuan yn 2015/16. **<u>Meysydd yr awgrymir y dylid eu gwella:</u>**<br>•Nid yw'r risgiau a'r camau lliniaru o ran twyll yn cael eu hadrodd ar hyn o bryd i'r Pwyllgor (ond gweler yr uchod mewn perthynas ag adroddiad 2015/16);<br>•Nid yw'r Pwyllgor yn adolygu trefniadau | 2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | llywodraethiant moeseg y Cyngor ar gyfer staff ac Aelodau. | |
| 9 | Hyrwyddo proses adrodd yn ôl gyhoeddus ac effeithiol i gydranddeiliaid yr awdurdod ac i'r gymuned leol a mesurau i ddarparu tryloywder ac atebolrwydd. | Gwella sut mae'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer adrodd yn ôl yn gyhoeddus; er enghraifft, gwell targedu at y gynulleidfa, Saesneg/Cymraeg plaen.<br>Adolygu a yw gwneud penderfyniadau drwy sefydliadau partner yn parhau i fod yn dryloyw ac ar gael i'r cyhoedd ac a yw'n annog mwy o dryloywder. | Caiff rhaglenni a chofnodion y Pwyllgor Archwilio eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor<br>**<u>Meysydd yr awgrymir y dylid eu gwella:</u>**<br>●Nid oes gan y Pwyllgor rôl ar hyn o bryd mewn perthynas â hyrwyddo dulliau adrodd effeithiol i gydranddeiliaid yr awdurdod. | 1 |

**<u>CIPFA – Pwyllgorau Archwilio / Cyfarwyddyd Ymarferol i Awdurdodau Lleol 2013</u>**
**<u>Gwerthuso Effeithlonrwydd y Pwyllgor Archwilio</u>**

| | Allwedd Asesu |
|---|---|
| 5 | Tystiolaeth glir ar gael o nifer o ffynonellau bod y pwyllgor yn weithredol yn cefnogi gwelliannau ar draws pob agwedd o'r maes hwn. Mae'r gwelliannau a wnaed yn rhai y gellir eu hadnabod yn glir. |
| 4 | Tystiolaeth glir o rai ffynonellau bod y pwyllgor yn weithredol ac yn effeithiol yn cefnogi gwelliant ar draws rhai agweddau o'r maes hwn. |
| 3 | Y pwyllgor wedi cael profiad cymysg o gefnogi gwelliannau yn y maes hwn. Mae peth tystiolaeth sy'n dangos eu heffaith ond mae yna hefyd fylchau sylweddol. |
| 2 | Ceir peth tystiolaeth bod y pwyllgor wedi cefnogi gwelliannau, ond mae effaith y gefnogaeth yn gyfyngedig. |
| 1 | Ni ellir gweld unrhyw dystiolaeth bod y pwyllgor archwilio wedi cefnogi gwelliannau yn y maes hwn. |

**Atodiad C**

## Pwyllgor Archwilio – Cynllun Gweithredu Arfaethedig ar gyfer Gwelliannau

| Cyfeirnod yn y Canllawiau Reference | Meysydd ar gyfer eu Gwella | Camau Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adran 1** | **Cylch Gorchwyl** | Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio i gael ei ddiwygio a'i ddiweddaru'n unol â Chanllawiau a Datganiad Sefyllfa CIPFA | **Swyddog Adran 151** | **30 Ebrill 2015** |
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adran 7** | **Fframwaith Sicrwydd - Pwyllgor Archwilio** | Roedd yr Aelodau'n cytuno y dylid mynd drwy bob un o'r penawdau yn y Cylch Gorchwyl wedi iddo gael ei ddiwygio a nodi'r modd y bydd y Pwyllgor yn cydymffurfio gyda phob un a'r sicrwydd sydd ar gael i'r Pwyllgor ddibynnu arno. Byddai hyn yn darparu fframwaith sicrwydd i'r Pwyllgor. | **Swyddog Adran 151** | **30 Ebrill 2015** |
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adran 2** | **Pwrpas a Llywodraethiant –** Codi proffil y Pwyllgor a sicrhau fod pryderon yn cael eu hystyried ar y lefel uchaf yn y Cyngor. | Mwy o adrodd i'r Cyngor a'r Prif Weithredwr - efallai ar ffurf adroddiad Amlygu o'r prif faterion/risgiau a nodwyd yn y Pwyllgor Archwilio pryd a phan mae hynny'n briodol. | **Cadeirydd Pwyllgor Archwilio / Swyddog 151** | **30 Ebrill 2015** |
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adran 4** | Fel yr uchod | Angen ystyried sut y gall y Pwyllgor ymgynghori mwy gyda Phwyllgorau eraill (Sgriwtini, Safonau) a'r Cyngor.<br><br>Awgrymwyd y byddai rhannu blaenraglenni gwaith ac argymell eitemau ar y cyd i sylw'r Pwyllgor o gymorth gyda'r broses hon.<br><br>Byddai cysylltu gyda Phwyllgorau Archwilio awdurdodau eraill yn GC a gofyn iddynt sut mae nhw'n gwneud hyn hefyd o gymorth. | **Cadeirydd Pwyllgor Archwilio / Swyddog Adran 151** | **30 Ebrill 2015** |
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adran 2** | Sicrhau fod modd delio gyda materion o bwys sy'n ymwneud â'r swyddogaeth graidd. | Adolygiad blynyddol gan aelodau (ac adolygiadau parhaus wedyn) o'r prif feysydd risg ar ddechrau pob blwyddyn a sicrhau yr ymdrinnir â phob un yn fanwl yn ystod y flwyddyn. | **Cadeirydd / Aelodau'r Pwyllgor** | **30 Ebrill 2015** |
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adrannau 6 & 18** | Gwerthusiad allanol o effeithiolrwydd | Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd mynd at SAC er mwyn cael barn annibynnol ynghylch perfformiad y Pwyllgor.<br><br>Roedd yr Aelodau o'r farn hefyd y gellid gofyn i eraill sy'n mynychu'r Pwyllgor yn rheolaidd am eu barn ynghylch perfformiad y Pwyllgor, e.e. Aelod Portffolio, Dirprwy Brif Weithredwr, Swyddog A151, Prif Weithgor Archwilio, PWC. | **Cadeirydd / Prif Weithgor Archwilio** | **30 Mai 2015** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adran 7** | **Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio – Gwerth am Arian** | Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad o'r trefniadau GAA yn y gwasanaethau a chyflwyno hwn i'r PA yn gynnar yn 2015/16. | **Prif Weithgor Archwilio** | **30 Mai 2015** |
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adran 8** | **Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio** – Calendr ac amlder cyfarfodydd | Y Cadeirydd i barhau i adolygu calendr gwaith y Pwyllgor a nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau i'r rhaglenni ar gyfer unrhyw gyfarfodydd ychwanegol ganolbwyntio ar bryderon y Pwyllgor er mwyn caniatáu digon o amser i drafod y materion dan sylw. | **Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio** | **31 Mawrth 2015** |
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adran 14** | **Aelodaeth a Chefnogaeth** – Trefniadau hyfforddi | Gofynnodd yr Aelodau am fwy o sesiynau briffio ar bryderon a materion penodol gan deimlo y byddai hynny'n fwy buddiol na chadw gwybodaeth o'r fath fel rhan o sesiynau hyfforddi a chyfarfodydd ffurfiol. | **Cadeirydd / Prif Weithgor Archwilio** | **30 Mai 2015** |
| **Canllawiau Arfer Dda CIPFA 2013 – adran 15** | **Aelodaeth a Chefnogaeth** – Gwybodaeth a Sgiliau | Hunanasesiad ffurfiol o wybodaeth a sgiliau craidd i gael ei gynnal gan yr Aelodau yn 2015 er mwyn penderfynu ar unrhyw fylchau o ran sgiliau ac anghenion hyfforddi. | **Swyddog Hyfforddi'r Aelodau** | **30 Mehefin 2015** |
| | | | | |
| **CIPFA – Effeithiolrwydd 2013 – adran 1** | **Hyrwyddo llywodraethiant da** | Gofynnodd yr Aelodau am gael cadw log o faterion a godwyd ac a drafodwyd yn y Pwyllgor er mwyn cefnogi ei rôl mewn perthynas â hyrwyddo llywodraethiant. | **Prif Weithgor Archwilio** | **Parhaus** |
| **CIPFA – Effeithiolrwydd 2013 – adran 2** | **Datblygu amgylchedd rheoli effeithiol** | Ymestyn tracio argymhellion i bob adroddiad - angen cefnogi cofrestr ganolog o argymhellion, camau a gweithredu.<br><br>Gwnaed argymhelliad ynghylch hyn mewn adroddiad Archwilio Mewnol yn 2011/12 ac nid yw wedi ei weithredu hyn yma. | **A151 i ymgynghori gyda'r UDA** | **30 Ebrill 2015** |
| **CIPFA – Effeithiolrwydd 2013 – Adran 2** | **Gweler uchod** | Cynnal gweithgorau a fyddai'n cyfarfod yn y cyfamser rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Archwilio ac a fyddai'n canolbwyntio ar feysydd penodol yn fanylach ac yn ddyfnach na'r pwyllgor. Dylai grwpiau o'r fath gynnwys uwch swyddogion perthnasol ac aelodau perthnasol nad ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio. | **Cadeirydd / Aelodau'r Pwyllgor** | **30 Ebrill 2015** |
| **CIPFA – Effeithiolrwydd 2013 – Adran 5** | **Perfformiad Archwilio Mewnol** | Ystyried ffyrdd y o adolygu a mesur archwilio mewnol a risg. Angen i AM wneud hynny bob pum mlynedd yn PSIAS. | **Prif Weithgor Archwilio** | **30 Ebrill 2015** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CIPFA – Effeithiolrwydd 2013 – Adran 6** | **Cynorthwyo i gyflawni amcanion yr awdurdod.** | Ystyried a ddylai'r Pwyllgor Archwilio ychwanegu adolygiadau o brosiectau mawr a threfniadau perfformiad y Cyngor at ei raglen waith gyfredol. | **Cadeirydd / Aelodau'r Pwyllgor** | **30 Ebrill 2015** |
| **CIPFA – Effeithiolrwydd 2013 – Adran 7** | **Hyrwyddo ymgysylltiad cyhoeddus effeithiol** | Cysylltu gydag awdurdodau eraill yng Nghymru i weld a gwerthuso'r modd y maent yn cydymffurfio gyda'r canllawiau arfer dda hyn ac yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio. | **Prif Weithgor Archwilio** | **30 Ebrill 2015** |

**-------------------DIWEDD Y DDOGFEN-----------------**